O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2502 (Cy.274)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2011

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *19 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *30 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *(*"works period"*)* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 30 Hydref 2011 ac a ddaw i ben pan fydd y goleuadau traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "darn(au) o'r gefnffordd" *("length(s) of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlenni 1 i 4 o'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd heblaw cerbyd esempt gael ei yrru, yn naill ai'r lôn gerbydau tua'r dwyrain neu'r lôn gerbydau tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** (1) Mewn cyfnodau pan fo symudiad yn y lôn gerbydau tua'r dwyrain wedi ei wahardd gan erthygl 3, ond heb ei wahardd yn y lôn gerbydau tua'r gorllewin, yn unol ag erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd:–

(i) deithio yn lôn allanol y lôn gerbydau tua'r gorllewin, ar y darn o'r gefnffordd dan sylw, mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain;

(ii) deithio mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain drwy'r naill neu'r llall o'r adwyon yn y llain ganol ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mewn cyfnodau pan fo symudiad yn y lôn gerbydau tua'r gorllewin wedi ei wahardd gan erthygl 3, ond heb ei wahardd yn y lôn gerbydau tua'r dwyrain, yn unol ag erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd:–

(i) deithio yn lôn allanol y lôn gerbydau tua'r dwyrain, ar y darn o'r gefnffordd dan sylw, mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin;

(ii) deithio mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin drwy'r naill neu'r llall o'r adwyon yn llain ganol y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd heblaw cerbyd esempt gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio, ar gyflymdra o fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio neu ganiatáu defnyddio cerbyd yn y fath fodd ag i beri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.20 metr neu ragor o led ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd o'r fath deithio ar y darnau hynny o'r gefnffordd.

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fydd cymhwysiad y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei nodi gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y mae'r cyfryw waharddiadau a chyfyngiad yn cael eu nodi gan yr arwyddion hynny.

**10.** Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lan Conwy) 1985**(3)** yn cael eu hatal dros dro, drwy hyn, o ran y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3, yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau sydd wedi eu nodi yn erthygl 6 yn weithredol.

**11.** Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glan Conwy i Forfa Conwy) 1990**(4)** yn cael eu hatal dros dro, drwy hyn, o ran y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3, yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau sydd wedi eu nodi yn erthygl 6 yn weithredol.

**12.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Teryn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011**(5)** yn cael eu hatal dros dro, drwy hyn, o ran y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3 yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiad sydd wedi ei nodi yn erthygl 6 yn weithredol.

**13.** Uchafswm cyfnod y Gorchymyn hwn fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 19 Hydref 2011

***G R Morgan***
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 c.27; disodlwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig y Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (c.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1985/824
**(4)** O.S. 1990/1586
**(5)** O.S. 2011/2330 (W.245)

## ATODLENNI

## ATODLEN 1
**Terfynau'r gwrthlif a'r gwaharddiad ar oddiweddyd**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt 105 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy hyd at bwynt 110 metr i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy.

## ATODLEN 2
**Terfynau'r adwyon ar y llain ganol**

1. Yr adwy, yn y llain ganol, sydd wedi ei lleoli rhwng pwynt 45 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy a phwynt 105 metr i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

2. Yr adwy, yn y llain ganol, sydd wedi ei lleoli rhwng pwynt 60 metr i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy a phwynt 110 metr i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

## ATODLEN 3
**Gwahardd cerbydau, a therfyn cyflymder 40mya**

1. Y darn hwnnw o brif lôn gerbydau'r A55 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt 500 metr i'r dwyrain o bwynt canol cylchfan Cyffordd 19, Cyfnewidfa Glan Conwy, hyd at bwynt 787 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol y Twnnel sy'n rhedeg i gyfeiriad y dwyrain ar Bentir Penmaenbach, gan gynnwys yr adwyon yn y llain ganol a ddisgrifir yn Atodlen 2.

2. Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain ar Gyffordd 19, Cyfnewidfa Glan Conwy.

3. Hyd cyfan y ffyrdd ymuno a'r ffyrdd ymadael i gyfeiriad y gorllewin a'r dwyrain ar Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

4. Hyd cyfan y ffyrdd ymuno a'r ffyrdd ymadael tua'r gorllewin a'r dwyrain ar Gyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy.

## ATODLEN 4
**Cyfyngiadau ar Led Cerbydau**

1. Y darn hwnnw o'r lôn gerbydau i gyfeiriad y dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 30 metr i'r dwyrain o bwynt canol Cyffordd 16, Cylchfan ‘Puffin’, hyd at ddiwedd y trwyn lle mae'r ffordd ymuno i gyfeiriad y dwyrain yn uno â phrif lôn gerbydau'r A55 ar Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r lôn gerbydau tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn dargyfeirio oddi ar brif lôn gerbydau'r A55 ar Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, hyd at bwynt 30 metr i'r dwyrain o bwynt canol Cyffordd 16, Cylchfan 'Puffin', gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin ar Gyffordd 18.